# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant:

## Y dull ymddygiadol

### Dull a damcaniaethwyr

**Damcaniaeth ymddygiadol:**

Pavlov, Skinner a Watson

**Geiriau allweddol:**

- Gwobrwyo
- Cosb
- Atgyfnerthiad

### Y prif agweddau ar y dull neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant

- Mae'r dull ymddygiadol yn canolbwyntio ar ymddygiad y mae modd arsylwi arno a'i feintioli.
- Mae'n ddull mwy gwyddonol o ymdrin â seicoleg na'r dull dyneiddiol.
- Gallwn esbonio ymddygiad dynol yn nhermau'r ffactorau amgylcheddol sy'n dylanwadu arno.
- Mae damcaniaethau datblygiad ymddygiadol yn esbonio ymddygiad fel ymateb i wobrau, cosb ac atgyfnerthiad.
- Y ddwy ddamcaniaeth fwyaf dylanwadol yw cyflyru clasurol a chyflyru gweithredol.
- Mae damcaniaeth cyflyru clasurol Pavlov yn dangos sut y gallwn gyflyru unigolyn i ailadrodd gweithred heb iddo sylweddoli.
- Credai John Watson mai ymateb i ysgogiad oedd pob seicoleg ddynol ac y gellid ei esbonio drwy gyflyru clasurol.
- Credai y gallai datblygiad iaith a datblygiad emosiynol gael eu hesbonio'n syml drwy'r broses hon.
- Datblygodd B.F. Skinner ddamcaniaeth cyflyru gweithredol, sef bod canlyniad ymateb yn pennu a fydd yr ymateb hwn yn cael ei ailadrodd ai peidio.
- Mae cyflyru gweithredol yn arwain at ailadrodd ymddygiad sy'n cael ei atgyfnerthu neu ei wobrwyo, a gwneud llai o ymddygiad sy'n cael ei gosbi neu roi'r gorau iddo.

### Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau

Pwysleisiodd Watson bwysigrwydd meithrin, a sylweddolodd arwyddocâd yr amgylchedd mewn datblygiad plant a phwysigrwydd amgylchedd cadarnhaol a meithringar ar gyfer datblygiad emosiynol iach plentyn.
Mae hyn wedi dylanwadu ar ymarfer mewn ysgolion a lleoliadau oherwydd gall amgylchedd cadarnhaol wneud i blentyn deimlo'n ddiogel, wedi ei ysgogi a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

Cred ymddygiadwyr fod profiad yn helpu'r plentyn i ddysgu beth yw ymddygiad da a beth yw ymddygiad annerbyniol. Os caiff ei wobrwyo a'i ganmol am ymddygiad da, bydd plentyn yn fwy tebygol o eisiau gwneud yr un peth eto a chael yr un ymateb cadarnhaol. Mae plant yn dysgu drwy gysylltiad ac atgyfnerthiad. Datblygiad yw ymateb i wobrau fel siartiau sêr a sticeri, ac i gosbau ac atgyfnerthiad drwy ganmoliaeth ac anogaeth.